Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Byddwn yn hoffi cynaeafu gwymon fy hun – beth sydd angen i mi wybod?

## Prif bwyntiau os ydych yn ystyried cynaeafu gwymon â llaw

- Mae'n rhaid i chi gael caniatâd y tirfeddiannwr cyn i chi gynaeafu gwymon.
- Mewn rhai amgylchiadau, bydd angen trwydded arnoch er mwyn cynaeafu gwymon, er enghraifft os ydych yn cynaeafu gwymon ar gyfer dibenion masnachol ar yr arfordiroedd sy'n berchen i Ystâd y Goron.
- Dylech ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn i chi gynaeafu gwymon mewn safle sydd wedi ei diogelu.
- Mae'n anghyfreithlon i yrru cerbydau mecanyddol ar yr arfordir heb ganiatâd gan y tirfeddiannwr.
- Mae'n drosedd i achosi lledaeniad ambell rywogaeth anfrodorol.

## Crynodeb o'r canllawiau ymarfer gorau er mwyn cynaeafu gwymon â llaw

- Ceisiwch osgoi ymyrryd ar fywyd gwyllt yr arfordir drwy gadw draw, o leiaf 100m, yn enwedig yn ystod tymor nythu adar (Mawrth – Gorffennaf), ardaloedd sy'n bwysig ar gyfer adar sy'n gaeafu (Hydref – Mawrth) a thymor geni morfilod (Awst – Ionawr.)
- Ceisiwch osgoi neu gyfyngu ar droedio ar blanhigion a rhywogaethau eraill, gan gynnwys wrth gyrraedd y safle.
- Os ydych yn symud unrhyw greigiau, rhowch nhw yn ôl yn yr un modd ag y daethoch o hyd iddynt.
- Torrwch ffrondau'n lân ag offer miniog tebyg i siswrn neu gyllell, yn uwch na man y tyfiant. **Peidiwch â datgysylltu'r gludafael.**
- Ceisiwch osgoi casglu rhywogaethau eraill sydd wedi ymgysylltu â'r gwymon.
- Cynaeafwch yn ofalus a phrin gan dynnu bach iawn o wymon o'r cynefin.
- Sicrhewch fod ardaloedd sydd i'w cynaeafu'n cael eu cylchdroi er mwyn sicrhau digon o amser ar gyfer adferiad.
- Cynaeafwch yn ystod y tymor tyfiant ac os yn bosib, wedi atgenhedliad.
- Gofynnwch am gyngor gan CNC os ydych yn dymuno cynaeafu rhywogaeth anfrodorol.
- Dilynwch yr egwyddorion bioddiogelwch - 'Gwirio, Glanhau, Sychu' ar gyfer offer a dillad cyn i chi symud i leoliad arall.
- Peidiwch â chasglu'r holl wymon drifft o'r draethlin - cynaeafwch yn brin a gofalus o leoliadau amrywiol ac amrywiwch y draethlin yr ydych yn casglu ohono. Mae gan wymon drifft swyddogaethau pwysig fel cynefin ar gyfer infertebratau ac adar (yn enwedig yn y gaeaf) ffynhonnell fwyd a mewnbwn maeth.
- Cyfyngwch gasglu gwymon o flaen twyni tywod gan fod ganddo swyddogaeth bwysig yn natblygiad y twyni.
- Byddwch yn ymwybodol, y gall blaendraethau fod yn beryglus. Peidiwch â pheryglu'ch hun drwy gasglu gwymon mewn tywydd garw a gochelwch rhag y llanw.





# Cynaeafu Gwymon â llaw – pwyntiau sylfaenol

### Pam fod gwymon yn bwysig?

Mae gan wymon nifer o swyddogaethau pwysig mewn systemau eco morol ac arfordirol gan gynnwys cynhyrchiant cynradd, cynefin a ffynhonnell fwyd, tiroedd silio a meithrin, diogelu'r arfordir a datblygiad twyni, gwella ansawdd y dŵr a chylchu maeth.

### Oes angen caniatâd arnaf i gasglu gwymon?

Gall unrhyw un gasglu gwymon sy'n arnofio ac nad sydd wedi ei gysylltu. Os yw'r gwymon yn tyfu ar y blaendraethau neu ar wely'r môr neu wedi ei waddodi ar y lan gan y llanw (gwymon drifft,) **mae'n rhaid i chi dderbyn caniatâd y tirfeddiannwr.** Efallai y bydd hefyd angen caniatâd CNC arnoch i gasglu gwymon o SoDdGA.

### Sut allaf ganfod pwy yw'r tirfeddiannwr?

Mae gennych dri opsiwn:
1. Chwiliwch am: Map Blaendraethau ac Aberoedd Ystadau'r Goron. Ystad y Goron sydd berchen oddeutu 65% o flaendraethau Cymru a'r rhan helaeth o wely'r môr, hyd at 12 milltir forol fel y dynodir ar y map. Gall peth o'r tir hwn fod yn dir ar les i awdurdodau eraill.
2. Chwiliwch ar y Gofrestrfa Tir
3. Gofynnwch yn lleol am ragor o wybodaeth

### Oes angen trwydded arnaf er mwyn cynaeafu gwymon?

Gallai fod angen trwydded, gan ddibynnu ble yr hoffech gasglu ac i ba ddiben;

- **Trwydded Ystad y Goron**

**Nid oes angen** trwydded arnoch i gynaeafu gwymon ar flaendraeth Ystâd y Goron ar gyfer defnydd personol. **Bydd angen** trwydded arnoch i gynaeafu gwymon ar gyfer dibenion ariannol neu eraill o flaendraeth neu wely'r môr sy'n berchen i Ystâd y Goron.

- **Trwydded Forol**

**Mae angen** Trwydded Forol arnoch (gan CNC) os ydych yn bwriadu dyddodi neu dynnu oddi yno unrhyw sylwedd neu unrhyw beth (gan gynnwys strwythur y defnyddir i drin gwymon) o unrhyw fath o gerbyd, cwch neu strwythur ar neu o wely'r môr. Mae'n annhebygol y bydd angen Trwydded Forol arnoch os ydych am gasglu'r gwymon â llaw.

**Nid oes angen** Trwydded Forol arnoch os ydych yn mynd â gwymon o'r traeth ar ran awdurdod lleol. Fodd bynnag, gallai mynd ag ef oddi yno fod yn destun cyfyngiadau eraill os yw'r ardal mewn neu gerllaw safle sydd wedi ei ddiogelu. Cysylltwch â CNC os ydych yn ansicr os byddwch yn effeithio ar safle sydd wedi ei ddiogelu.

### Ble gallaf gasglu gwymon?

Gallwch gasglu gwymon o nifer o rannau o arfordir Cymru ac yn nyfroedd y glannau os yw'n ddiogel gwneud hynny. Fodd bynnag, mae nifer o safleoedd sydd wedi eu diogelu yng Nghymru lle y gallai cynaeafu fod yn destun nifer o amodau neu wedi ei wahardd. Dylech gysylltu â CNC os ydych yn dymuno cynaeafu yn un o'r safleoedd hyn.

### Sut yr wyf yn gwybod os yw'r arfordir mewn ardal sydd wedi ei diogelu?

Gellir dod o hyd i ffiniau safleoedd sydd wedi eu diogelu ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, safleoedd Ramsar a Parth Cadwraeth Morol ar wefan MapDataCymru.

Os byddwch yn cysylltu â CNC ynghylch cynaeafu gwymon ar leoliad sydd wedi ei ddiogelu, byddwn yn asesu pob ymholiad yn unigol. Sicrhewch fod gennym y wybodaeth ganlynol:

## Rhestr wirio i'w defnyddio wrth gysylltu â CNC

**Ble**
Bydd angen manylion arnom am leoliadau penodol y cynaeafu (h.y. cyfeirnod grid, cynllun neu fap.) A ydych yn cynnig cynaeafu ar y blaendraeth yn unig (h.y. rhwng Dŵr Isel Cymedrig a Dŵr Uchel Cymedrig) neu ar wely'r môr yn is na'r Dŵr Isel Cymedrig yn ogystal?

**Pwy**
Pwy fydd yn cynaeafu? (unigolyn, cwmni, contractwr ac ati)
Pwy sydd berchen y tir sydd o dan sylw? (os yn wybyddus)

**Beth**
Rhywogaeth y gwymon yr hoffech ei gynaeafu.

**Sut**
Dull y casglu ac os hoffech ddefnyddio cwch. Manylion mynediad ac os hoffech ddefnyddio cerbyd ar y blaendraeth.

**Pryd**
Natur dymhorol, amlder a phatrwm y casgliad.

**Faint**
Dynodiad o'r swm/cyfaint y dymunwch. Gwerthfawrogwn efallai nad ydych yn gwybod hyn mewn manylder ond byddai nodi gramau, kilogramau, tunelli ac ati yn gymorth i ni allu'ch cynghori.

**Ar gyfer beth**
Byddai'n werthfawr i ni ddeall pam eich bod yn dymuno casglu gwymon.

Ar gyfer pob ymholiad:

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Ffôn: 0300 065 3000

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Drwy'r post:

Cyfoeth Naturiol Cymru
d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid
Tŷ Cambria
29 Ffordd Casnewydd
Caerdydd

Os penderfynwch yr hoffech gasglu gwymon yng Nghymru, cynghorwn eich bod yn darllen 'Detailed Guidance for Seaweed Hand Harvesting. Guidance Note. NRW, 2022' am ragor o fanylion.